

MATTHEWS, JOHN HOBSON ('Mab Cernyw'; 1858 - 1914), hanesydd Pabyddol, arbenigwr mewn dogfennau, a chyfreithiwr

Enw: John Hobson Matthews
Ffugenw: Mab Cernyw
Dyddiad geni: 1858
Dyddiad marw: 1914
Priod: Alice Mary Mathews (née Gwyn-Hughes)
Rhiant: Emma Mathews (née Hobson)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hanesydd Pabyddol, arbenigwr mewn dogfennau, a chyfreithiwr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Cyfraith
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd 1858 yn Croydon, ei dad o St. Ives, Cernyw, a'i fam (Emma Hobson) o Great Grimsby. Er nad oedd yn Gymro o waed bu i Matthews gyswllt hir â Chymru, ac ysgrifennodd gymaint am Gymru a'r gororau nes haeddu ohono le yn y gwaith hwn. Cafodd ei addysg mewn ysgolion yn Blackheath a Chaergrawnt, a bu am ychydig amser mewn swydd yn Malta a gafwyd iddo gan ei dad, a oedd mewn busnes llongau.

Derbyniwyd ef i'r Eglwys Pabyddol yn 1877, daeth yn gyfreithiwr yn 1889, a bu'n dilyn yr alwedigaeth honno yng Nghaerdydd.

Eithr mewn hanes a defnyddiau hanes yr oedd ei ddiddordeb pennaf. Cyhoeddodd *Yr hen grefydd a'r grefydd newydd Sef dad! ... am yr Eglwys Gatholig.... Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan ... J. H. Jones* (Caerdydd, 1889), *A history of the parishes of St. Ives, Lelant, Towednack, and Zennor* (London, 1892), *The Life and Memorials of Saint Teilo* (Preston, 1893), *The Mass and its Folklore* (London, 1903), etc. Efe a gyfieithodd *Ffordd y Groes* yn Gymraeg ac a olygodd *Emynau Catholig*.

Yn y cyfamser yr oedd yn arbenigo mewn astudio dogfennau, gan roddi sylw (a) i ddogfennau corfforaeth Caerdydd, a golygu chwe chyfrol y gwaith mawr a enwir, *Cardiff Records, being materials for a history of the County Borough from the earliest times* (1898-1911), a dyfod yn hanesydd swyddogol y gorfforaeth; (b) i ddogfennau swyddogol sir Fynwy (cyhoeddwyd, 1905, adroddiad a baratowyd ganddo); a (c) i ddogfennau ynglyn â hanes Pabyddion, yn enwedig rhai de-ddwyrain Cymru, sir Henffordd, etc. Bu'n archwilio dogfennau teulu **Vaughan**, Courtfield, sir Henffordd, a chyhoeddi, yn 1912, *The Vaughans of Courtfield; a study in Welsh genealogy*. (Y mae'r dogfennau hyn yn awr yn LI.G.C.)

Yr oedd yn un o aelodau gwreiddiol y 'Catholic Record Society,' a ffurfiwyd yn 1904, gan ddyfod yn gyfranwr toreithiog i gyfrolau'r gymdeithas honno, e.e. 'Catholic Mission Register of Perthir,' 'Records relating to Catholicism in the South Wales Marches, 17th and 18th centuries,' 'Catholic registers of Llanarth, Monmouthshire, 1781-1838,' 'A list of Monmouthshire Recusants, 1719,' etc. (gweler cyfrolau i, ii, iii, vii, ix, xii, xiii). Yr oedd yn un o'r rhai cyntaf i alw sylw at garolau **Richard Gwyn** - gweler *Catholic Record Society*, iv. 90-9.

Yr oedd ganddo gryn allu fel ieithydd - iaith Malta, y Gernyweg - a daeth yn bur hyddysg yn yr iaith Gymraeg. Adeg ei farw, yn Ealing, 23 Ionawr 1914, yr oedd yn gweithio ar barhad o waith Duncombe ar hanes sir Henffordd. Priododd, 1892, Alice Mary Gwyn-Hughes.

Y mae **NLW MS 2851E-2853E** yn cynnwys esiamplau o'i waith fel cynullwr defnyddiau hanes.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

The Tablet a weekly newspaper and review, 31 Ionawr 1914

Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales, i

Cardiff Naturalists' Society, xxxiii

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q28360871**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiolch i
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government